Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

# Asesiad Risg Mellt

21 Mai 2014

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 22 Ebrill, pan wnaethoch ofyn:

*O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a fyddech cystal â darparu copi o'r ddogfen ganlynol.*

*Dogfen ddylunio wedi'i chymeradwyo ar gyfer Asesiad Risg Mellt ar gyfer Adeilad newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru.*

Deallaf fod Llywodraeth Cymru yn ymateb ar wahân, felly mae'r wybodaeth ganlynol yn gymwys i adeiladau'r Cynulliad Cenedlaethol yn unig, sef y Senedd, y Pierhead, Tŷ Hywel a'r ganolfan ymwelwyr ym Mae Colwyn.

Nid oes gennym asesiadau risg mellt ar gyfer y pedwar adeilad a nodwyd uchod.

Mae systemau diogelu rhag mellt wedi'u gosod yn adeiladau'r Senedd, Tŷ Hywel a'r Pierhead, a chânt eu cynnal a'u cadw a'u profi yn flynyddol.

Rydym yn prydlesu rhan o'r adeilad a ddefnyddir ar gyfer ein canolfan ymwelwyr ym Mae Colwyn, ac nid oes gennym ddogfennau ynglŷn â'r trefniadau cynnal a chadw.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan: [www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm](www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm)
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF